# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 1 Chwefror 2005]

**Dydd Mawrth 8 Chwefror 2005 a dydd Mercher 9 Chwefror 2005**

***TORIAD HANNER TYMOR 14 - 21 CHWEFROR 2005***

**Dydd Mawrth 22 Chwefror 2005 a dydd Mercher 23 Chwefror 2005**

**Dydd Mawrth 1 Mawrth 2005 a dydd Mercher 2 Mawrth 2005**

## Dydd Mawrth 8 Chwefror 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad o Lofruddiaeth Paul Khan (30 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**
- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005**

  Prif ddiben y Rheoliadau yw sicrhau y bydd gan unrhyw un sydd eisoes wedi'i gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr (neu restr o gyflawnwyr meddygol yn achos ymarferydd cyffredinol) yn y Deyrnas Unedig ac sy'n gwneud cais i gael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr sy'n cael ei chadw gan Fwrdd Iechyd Lleol (BILl) hawl i wneud cais cyflym a darparu llai o wybodaeth na phe bai'n gwneud cais i fod ar restr cyflawnwyr am y tro cyntaf. Unwaith y daw'r cais i law, bydd gan yr ymgeisydd hawl i weithio yn y maes am gyfnod o ddau fis neu nes y bydd y BILl wedi

penderfynu ar ei gais (pa gyfnod bynnag yw'r byrraf).

- **Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005**

  Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn trosi ac yn gweithredu Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2003/95/EC a 2004/45/EC. Bydd y Rheoliadau newydd yn diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995 (fel y'u diwygiwyd) yng Nghymru i weithredu'r pumed a'r chweched diwygiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 96/77/EC, sy'n pennu meini prawf purdeb penodol ledled yr UE ar gyfer bwydydd ar wahân i liwiau a melysyddion. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhan o raglen barhaus i ddiweddaru manylebau'r UE ar gyfer ychwanegion bwyd, sy'n cael eu defnyddio i sicrhau purdeb ychwanegion bwyd.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005 (30 munud)**

  Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i awdurdodau gorfodi weithredu Penderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag adnabod ceffylau sydd wedi'u trin â meddyginiaethau na ddylid eu rhoi i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd. Maent yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Pasbortau Ceffylau 1997 a Gorchymyn Pasbortau Ceffylau (Diwygio) 1998 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005 (15 munud)**

  Mae'r hyn a gynhwysir mewn hysbysiadau galw am dalu Ardrethu Annomestig, ynghyd â'r wybodaeth esboniadol sy'n cael ei hanfon gyda'r biliau, yn cael eu rhagnodi yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993, a bydd y rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 1993. Mae nodiadau esboniadol yn cael eu hanfon gyda biliau Ardrethu Annomestig, ac mae'r nodiadau hyn yn esbonio'r gwahanol fathau o ryddhad sydd ar gael i dalwr ardrethi, ynghyd â'r gweithdrefnau ar gyfer apelio. Mae cynghorau yn amgáu'r nodiadau hyn gyda'r biliau ac mae'r Cynulliad yn rhagnodi'r geiriad y dylid ei ddefnyddio.

  O dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol sydd wedi'u cofrestru at ddibenion Atodlen 18 o Ddeddf Cyllid 2002, yn cael rhyddhad ardrethi gorfodol o 80 y cant o'u biliau. Caiff yr awdurdodau lleol arfer eu doethineb, a rhoi disgownt o hyd at 100 y cant. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 1 Ebrill 2004, a rhaid i glybiau chwaraeon fod wedi'u cofrestru gyda Chyllid y Wlad fel Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol er mwyn cael rhyddhad gorfodol. Bydd angen diwygio'r rheoliadau i gynnwys yr wybodaeth hon yn y nodiadau sy'n cael eu hamgáu gyda'r biliau.

Hefyd, bydd yr Ailbrisio ar Ardrethi Busnes yn dod i rym yn 2005/06, a bydd angen cynnwys gwybodaeth am hyn, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am y weithdrefn apelio.

- **Motion to approve The Local health Board Medical Services Directions 2005 under Standing Order 29 (10 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol (45 munud)**

- ***Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)***
- **Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2005-06 ar gyfer awdurdodau heddlu Cymru**
- **Adroddiad Diwygio 2003-04 ar gyfer cynghorau ac awdurdodau heddlu Cymru**

O dan Reol Sefydlog 21.12, mae'n ofynnol i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) ar gyfer awdurdodau heddlu Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-06; a'r adroddiad diwygio ar gyfer cynghorau ac awdurdodau heddlu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04. Mae gofyn i'r ddau adroddiad gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

## Dydd Mercher 9 Chwefror 2005

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (30 munud)**

- **Dadl am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Grw^p Gorchwyl ar Dlodi Plant (60 munud)**

Ymgynghorwyd ynghylch Adroddiad y Grw^p Gorchwyl Allanol ar Dlodi Plant yn ystod yr haf. Mae'r Strategaeth ar Dlodi Plant, sef "Dyfodol Teg i'n Plant" yn ymateb i adroddiad y Grw^p Gorchwyl, ac mae'n nodi cyfeiriad tymor hir Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant.

- **Dadl am y Strategaeth Drafnidiaeth (60 munud)**

  Bydd y ddadl yn ystyried canlyniad adolygiad y Gweinidog o raglenni trafnidiaeth, a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2004.

- **Y ddadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 22 Chwefror 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 funud)**

- **Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005**

  *Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn gweithredu diwygiadau i Reoliad y Comisiwn Rhif 466/2001, a Chyfarwyddebau'r Comisiwn 003/78/EC, 2003/121/EC, 2004/16/EC a 2004/44/EC. Bydd y Rheoliadau'n dirymu ac yn disodli Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2003, ac yn dirymu Rheoliadau Tun mewn Bwyd 1992 (OS 1992 Rhif 496) yng Nghymru.*

- **Gorchymyn Cyllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2005**

  *Bydd y Gorchymyn newydd yn codi'r terfyn ar y Gwerth Ardrethol o £24,600 i £29,200, a hynny er mwyn caniatáu i bobl gymwys sy'n berchen ar adeiladau masnachol fod yn gymwys i gyflwyno hysbysiadau malltod o dan adran 149 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Caiff yr un terfyn ei fabwysiadu hefyd ar gyfer eiddo sydd â'r hawl i hawlio iawndal o dan Ran I o Ddeddf Ianwdal Tir 1973 ac mewn perthynas â chymhwyso'r rheoliadau sy'n ymwneud â diddymu busnes yr effeithir arno gan ddatblygiad cyhoeddus (o dan adran 46) o'r un Ddeddf, felly, mae angen dirymu Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000 (OS 2000/1169) (W.94).*

- **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) (Diwygio) 2005**

  *Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004 er mwyn adlewyrchu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) sy'n pennu o dan ba amgylchiadau y dylai tirniaeth ar gyfer y ffliw fod ar gael i gleifion o dan y GIG, ac ar gyfer pa gategorïau o gleifion y dylid darparu triniaeth o'r fath.*

- **Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005**

  *Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2004/4/EC, sef mesur sy'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, a'r farchnad sengl. Mae'n diwygio Cyfarwyddeb 96/3/EC dyddiedig 26 Ionawr 1996, sy'n nodi rhestr y Comisiwn Ewropeaidd o sylweddau derbyniol y ceir eu cludo yn syth cyn cludo brasterau ac olewau ar y môr. Mae'r Gyfarwyddeb newydd yn diwygio'r rhestr bresennol (sy'n cynnwys oddeutu 90 o sylweddau), gan dynnu 4 sylwedd ac ychwanegu 9, a hynny ar sail asesiad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Gwyddonol y Comisiwn Ewropeaidd ar Fwyd.*

- **Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 21) 2005**

  *Effaith y Gorchymyn hwn fydd diogelu teitl gweithiwr cymdeithasol drwy ei gwneud yn drosedd, a fydd yn agored i ddirwy o hyd at lefel 5 ar y raddfa safonol, i unrhyw un nad yw wedi'i gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol ddefnyddio'r teitl hwnnw nac i honni ei fod yn weithiwr cymdeithasol, gyda'r bwriad o dwyllo. Nid yw'r Gorchymyn yn rhoi unrhyw swyddogaethau i'r Cynulliad.*

- **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005**

  Bwriedir i'r Rheoliadau hyn ragnodi'r cynnydd yn y swm dyddiol y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ei godi ar awdurdodau cynllunio lleol am y gwasanaethau a ddarperir gan Arolygwyr Cynllunio wrth gynnal ymchwiliadau cyhoeddus i Gynlluniau Datblygu Unedol, cynlluniau lleol neu barthau cynllunio syml. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi swm dyddiol safonol y ceir ei godi am bob diwrnod y mae Arolygydd yn ei dreulio yn cynnal ymchwiliad neu'n gwneud

gwaith sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd cynnydd o £61 yn y gyfradd ddyddiol, o £618 i £679, mewn perthynas ag ymchwiliad neu wrandawiad arall sy'n agor ar 1 Ebrill 2005 neu wedi hynny. Bwriad y cynnydd arfaethedig yw sicrhau bod modd addennill costau llawn y gyfradd ddyddiol, gan gynnwys costau uniongyrchol, costau cymorth llawn a gorbenion. Caiff costau teithio a chynhaliaeth eu hadennill ar sail y symiau gwirioneddol ac nid ydynt yn rhan o'r swm dyddiol hwn.

- **Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 24.27(iv), Reoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chynlluniau Cymorth (Cymru) 2005 (15 munud)**

  *Y Rheoliadau hyn fydd yn gweithredu newidiadau'r Undeb Ewropeaidd i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yng Nghymru, a dyma'r ddeddfwriaeth ddomestig a fydd yn sail i Gynllun y Taliad Sengl a fydd yn cael ei gyflwyno o 1 Ionawr 2005 ymlaen. Mae deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ar yr pryd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae'n adlewyrchu'r modelau gwahanol sy'n cael eu gweithredu ar draws y DU ar gyfer Cynllun y Taliad Sengl; byddant i gyd yn dod i rym ar 1 Mawrth 2005.*

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn diwygio, ac yn cydgrynhoi lle y bo'n briodol, Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996 (OS 1996 Rhif 590), a'r newidiadau a wnaed i'r Rheoliadau ers eu cyhoeddi gyntaf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001 Rhif 3760 (W.309)) (Rheoliadau 1996). Bydd y diwygiadau hyn yn dirymu Rheoliadau 1996 i'r graddau y maent yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru. Y bwriad yw ymgorffori nifer o ddarpariaethau newydd, a fydd yn diweddaru'r rheolau ar gadw cyfrifon awdurdodau lleol, yn lleihau biwrocratiaeth ddiangen, yn gwella dulliau llywodraethu corfforaethol awdurdodau lleol, ac yn eu gwneud yn fwy atebol.

- **Cynnig i benodi Archwilwyr newydd i archwilio cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru (10 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

- **Dadl am 5ed Adroddiad Blynyddol y Cynulliad Cenedlaethol ar Gydraddoldeb o dan Reol Sefydlog 6.5 (60 munud)**

  Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2003-04 ac

mae ynddo 4 elfen – adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal; adroddiad blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad; adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd ag asesiad gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o'r tair elfen arall.

## Dydd Mercher 23 Chwefror 2005

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, in accordance with Standing Order 6.28 and as specified in the list of Ministerial responsibilities (30 munud)**

- **Motion to approve changes to Standing Orders(15 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i 3ydd Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (30 munud)**

- **Dadl am Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol (45 munud)**

Mae'r Prif Swyddog Meddygol yn llunio adroddiadau rheolaidd am iechyd pobl

Cymru. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres newydd o adroddiadau byrrach sy'n anelu at helpu darllenwyr i ganolbwyntio'n gynt ac yn haws ar faterion a gwybodaeth allweddol. Nod yr adroddiadau yw tynnu sylw at y materion iechyd pwysig yng Nghymru a disgrifio ym mha ffyrdd yr ymdrinnir â hwy. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa er mwyn i bawb ymateb i Her Iechyd Cymru, ac mae'n rhoi golwg ystadegol gyffredinol o iechyd pobl Cymru ac yn canolbwyntio ar dri mater allweddol sy'n ymwneud ag iechyd - clefydau anadlol, iechyd rhywiol a gweithgarwch corfforol. Bydd y ddau adroddiad nesaf yn y gyfres yn cynnwys Damweiniau ac Anafiadau, a Thybaco.

- **Y ddadl fer (30 munud)**

## Dydd Mawrth 1 Mawrth 2005

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Slot wedi'i neilltuo ar gyfer is-ddeddfwriaeth (90 munud)**
- **Motion to approve the Senior Salaries Review Board Recommendations (15 munud)**
- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

## Dydd Mercher 2 Mawrth 2005

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Plant 2004 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl am adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar Gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol (60 munud)**

- **Dadl am Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau (40 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**

–

–